Cynhyrchu?
Ystyriwch Gymru.

Creative Business Wales
Busnes Creadigol Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Haf '09

Croeso i rifyn Haf '09 e-fwletin Busnes Creadigol Cymru.

Os hoffech i unrhyw gydweithwyr gael eu hychwanegu at y rhestr ddosbarthu, neu os hoffech gael eich tynnu oddi arni, anfonwch neges e-bost at: cbw@wales-uk.com

* *

CYNNWYS

Pg

Newyddion .....

Ffilm

'A boy called Dad' 2

'Dagenham Girls' ar eu ffordd i Ferthyr 2

Rhwydweithio

Digwyddiad Scene and Heard i wneuthurwyr ffilmiau a Cherddorion 3

Gweithdai

Gweithdai Sheffield Documentary Festival 7

Gwyliau Ffilmiau

Cymru yn Cannes 2009 5

Media Antenna Cymru yng Ngŵyl Ffilm Caeredin 8

Gwobrau

BAFTA Cymru 2009 5

Digwyddiadau ar ddod .....

Hyfforddiant Insight Out i unigolion creadigol sydd eisiau sefydlu busnes 7

Sioe Deithiol PACT 4

Cymorth Ariannol.....

Benthyciadau wedi'u gwarantu gan y Llywodraeth 6

Arall .....

Cronfa Ddata Criw a Chyfleusterau Comisiwn Sgrîn Cymru 3

Digwyddiadau Busnes Creadigol Cymru / Galw am geisiadau:

Dyddiadau i'ch Dyddiadur:

Insight Out Cymru 2009:
Mae Insight Out Cymru bellach yn derbyn ceisiadau <http://forms.nesta.org.uk/officeforms/NESTA_Insight_Out_1.ofml>u
Mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau wedi'i ymestyn hyd **ddydd Llun, 6 Gorffennaf.**

I gael mwy o wybodaeth ac i wneud cais cliciwch ar y ddolen isod:
www.nesta.org.uk

Intelligent Factual Festival 2009:
Os yw creu cynnwys ffeithiol yn rhan o'ch busnes chi, fyddwch chi ddim eisiau methu IF'09

Mawrth 14 – Mercher 15 Gorffennaf

Lansiwyd safle cadw lle ar 11 Mai – gwyliwch am restr lawn o siaradwyr a sesiynau.

http://www.televisual.com/handbook/.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â
Kate Dinwoodie
Rheolwr Masnachol
Televisual Magazine

Arolwg Cyflogaeth o'r Diwydiannau Cyfryngau Creadigol 6

A Boy Called Dad

Cafodd A BOY CALLED DAD, ffilm hir gyntaf y cynhyrchydd Mark John o Gaerdydd ei dangos am y tro cyntaf ar ail noson Gŵyl Ffilm Ryngwladol Caeredin 09.

Fe'i ffilmiwyd ar leoliad ledled Gogledd Cymru, Glannau Merswy a Nottingham dros chwe wythnos. Sêr y ffilm yw Ian Hart *(Harry Potter and the Philosopher's Stone, Backbeat, Land and Freedom)* a Kyle Ward, sy'n 15 oed ac sy'n actio mewn ffilm am y tro cyntaf. Ysgrifennwyd A BOY CALLED DAD gan Julie Rutterford a chafodd ei chyfarwyddo gan Brian Percival. Dyma'i ffilm gyntaf ar ôl iddo ennill enw ym maes teledu gyda *North and South, Clocking Off, Much Ado About Nothing* ac yn ddiweddar *Ruby in the Smoke,* gyda Billie Piper a Julie Walters.

Cafodd A BOY CALLED DAD ei hariannu gan Asiantaeth Ffilm Cymru, EM Media, North West Vision a chyllidwyr preifat.
I ddarllen mwy **>** a-boy-called-dad.

'Dagenham Girls' ar eu ffordd i Ferthyr

Mae swyddfa De Ddwyrain Comisiwn Sgrîn Cymru wedi bod yn gweithio ar y ffilm hir *Dagenham Girls* sydd ar y gweill ar safle Hoover ym Merthyr Tudful ers diwedd mis Mehefin.

Y cynhyrchydd Stephen Woolley, y cyfarwyddwr Nigel Cole a'r actores Sally Hawkins wrthi'n

E-bost: kate@televisual.com
Ffôn: 020 3008 5781

'Wythnos Gyngor' Cymorth Hyblyg i Fusnesau i roi mwy o gymorth i gwmnïau llai
13 – 17 Gorffennaf 09:
I gael mwy o wybodaeth cysylltwch ag Angella Hughes, Rheolwr Ymgyrchoedd ar 01745 586 194 neu 07919 324571.

Taith Fasnach i Dde Affrica (Aml Sector – Johannesburg)

5 – 11 Medi 09
I gael manylion ynglŷn â sut i gofrestru, cliciwch ar y ddolen:
http://www.ibwales.com/international-trade/international-trade-events/

Teithiau Masnach i Toronto a'r Atlantic Film Festival (Creadigol – Toronto a Halifax)

10 – 19 Medi 09
I gael manylion ynglŷn â sut i gofrestru, cliciwch ar y ddolen:
http://www.ibwales.com/international-trade/international-trade-events/

Taith Fasnach i Malaysia (Aml Sector – Kuala Lumpur)

10 – 17 Hydref 09
I gael manylion ynglŷn â sut i gofrestru, cliciwch ar y ddolen:
http://www.ibwales.com/international-trade/international-trade-events/

Taith Fasnach i Saudi Arabia a Qatar (Aml Sector – Riyadh, Damman a Qatar)

8 – 15 Hydref 09
I gael manylion ynglŷn â sut i gofrestru, cliciwch ar y ddolen:
http://www.ibwales.com/international-trade/international-trade-events/

Taith Fasnach i'r Women's Film Festival (Creadigol – St John's, Canada)

18 – 24 Hydref 09
I gael manylion ynglŷn â sut i

hyrwyddo'r ffilm yn Cannes.

Bydd y ffilm yn cael ei chyfarwyddo gan Nigel Cole (a gyfarwyddodd y ffilm boblogaidd o Brydain *Calendar Girls*) a'i chynhyrchu gan Elizabeth Karlsen a Stephen Woolley o Number 9 Films. Mae'n ymdrin â hanes 200 o wniadwragedd yn ffatri Ford yn Dagenham a aeth ar streic yn 1968 dros gyflog cyfartal, gan arloesi'r ffordd ar gyfer deddfwriaeth hanesyddol gan y Llywodraeth.
Dywedodd y cynhyrchydd, Elizabeth Karlsen, mai ffatri Hoover oedd y lleoliad perffaith i ail-greu diwydiant diwedd y 60au.

Wrth siarad ar ôl i leoliad y ffilmio gael ei gyhoeddi, dywedodd y cyd-gynhyrchydd Elizabeth Karlsen mai ffatri Hoover oedd y lleoliad perffaith i ail-greu diwydiant diwedd y 60au.
I ddarllen mwy **>** hoover-factory-opens-its-door-to-film-crew.

Wales Screen Commission
Comisiwn Sgrîn Cymru

Cronfa Ddata Criw a Chyfleusterau Comisiwn Sgrîn Cymru

- Nawr yw'r amser i gael sylw i'ch proffil! – Rhagwelwyd y byddai tymor ffilmio prysur dros yr haf; mae wedi dechrau ond mae amser o hyd i chi gofrestru ar gronfa ddata Comisiwn Sgrîn Cymru. Mae unrhyw gynhyrchwyr sy'n dod i Gymru'n chwilio am griw a chwmnïau cyfleusterau ar gronfa ddata Comisiwn Sgrîn Cymru. Mae unrhyw un sydd wedi gweithio'n broffesiynol ar o leiaf un cynhyrchiad ac sydd â chyfeiriad yng Nghymru'n gallu ymuno, ac mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim.
Ewch i www.walesscreencommission.com a chliciwch ar **Register**.
Sgroliwch i lawr i le mae'n dweud **Personal Details** ac ychwanegu eich manylion cyswllt, categorïau perthnasol (Criw, Cyfleusterau neu Wasanaethau Cyffredinol) a manylion unrhyw waith diweddar.
Os hoffech ddiweddaru cofnod sy'n bodoli eisoes, cysylltwch â ni i gael rhif adnabod a PIN.
I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Chomisiwn Sgrîn Cymru ar enquiry@walesscreencommission.co.uk
Neu ffoniwch Owain neu Penny ar 029 2043 5381/5385.

Scene and Heard – a gynhaliwyd gan Academi Sgrîn Cymru a Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig

Y cyfarwyddwr Stephen Frears, sydd wedi'i enwebu am Oscar, yn ysbrydoli myfyrwyr yn noson Scene & Heard!

Berwyn Rowlands, Christian Henson, Ian Neil a

gofrestru, cliciwch ar y ddolen: http://www.ibwales.com/international-trade/international-trade-events/

Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig

WOMEX 2009 (Copenhagen):

Womex yw ffair y fasnach gerddoriaeth ar gyfer cerddoriaeth y byd, cerddoriaeth werin a cherddoriaeth ieithoedd lleiafrifol.

28 Hydref – 1 Tachwedd 09

Mae WMF yn gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb mewn mynd i'r ffair cyn gynted ag sy'n bosibl. Anfonwch neges e-bost at kieron@welshmusicfoundation.com os oes gennych ddiddordeb.

Cyfarfod rhanddeiliaid: mae WMF yn cynnal ei gyfarfod rhanddeiliaid nesaf ar **9 Gorffennaf 09 rhwng 5:00 a 7:00** yn y Monkey Bar and Café yn Abertawe.

Diben: rhwydweithio a chael gwybod beth mae WMF yn cymryd rhan ynddo. Mae'r cyfarfod yn agored i bawb sydd â diddordeb yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru ac mae'n rhad ac am ddim.

Mae'r siaradwyr yn cynnwys:

- Huw Williams a Penny Mitchell – Weavers Building: cynnig ar gyfer clwstwr diwydiannau creadigol yn y Stryd Fawr yn Abertawe
- Colin Consterdine – Unconvention Swansea(http://unconventionswansea.com/)

Cadwch eich lle ar hello@welshmusicfoundation.com. Gydag unrhyw bynciau yr hoffech eu codi yn y cyfarfod cysylltwch â kieron@welshmusicfoundation.com.

Sesiynau Galw Heibio
Mae WMF yn cynnal sesiynau galw heibio o gwmpas Cymru bob mis. Felly os oes gennych unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â

Stephen Frears yn ateb cwestiynau o'r llawr yn noson Scene & Heard.

Cafodd myfyrwyr a cherddorion o Gymru fodd i fyw wrth i'r cyfarwyddwr Stephen Frears, sydd wedi'i enwebu am Oscar, ymuno â hwy mewn digwyddiad cerddoriaeth mewn ffilmiau a drefnwyd gan Academi Sgrîn Cymru a Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig (WMF).

Mawr oedd y disgwyl am y digwyddiad 'Scene & Heard', a gynhaliwyd ar gampws Prifysgol Morgannwg yng Nghaerdydd, yr Atriwm, ar 28 Mai. Y bwriad oedd helpu cyw wneuthurwyr ffilmiau a cherddorion yng Nghymru i dorri i mewn i'r diwydiant trwy weithio'n gydweithredol. Daethpwyd â'r noson yn fyw gyda hanesion a geiriau llawn ysbrydoliaeth gan dri o weithwyr proffesiynol arobryn ym meysydd ffilm a cherddoriaeth, sef arolygydd ffilm a cherddoriaeth mwyaf blaenllaw'r DU, Ian Neil, y cyfansoddwr enwog, Christian Henson, a'r cyfarwyddwr clodfawr, Stephen Frears.
I ddarllen mwy **>** *Stephen Frears at Scene and Heard*

Insight Out

Rhaglen hyfforddiant menter genedlaethol yw Insight Out sydd wedi'i bwriadu'n benodol ar gyfer unigolion creadigol sydd eisiau sefydlu busnes yn y diwydiannau creadigol. Os oes gennych syniad ar gyfer busnes creadigol sydd wedi'i seilio ar greu neu ddosbarthu cynnwys cyfryngau newydd yr hoffech ei ddatblygu yng Nghymru, hoffem glywed oddi wrthych chi. Mae'r cwrs yn rhoi ysbrydoliaeth a chyngor ymarferol oddi wrth weithwyr proffesiynol yn y sector ynghyd â chyfarfodydd unigol gyda chyfrifydd a chyfreithiwr. Mae hefyd cyfle i gynnig am hyd at £5,000 o arian cychwyn busnes.

I gael mwy o wybodaeth am gynllun Insight Out: claire.heat@wales-uk.com ffôn: 029 20436118 www.nesta.org.uk/insight-out.
Mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau wedi cael ei ymestyn i: 6 Gorffennaf

Mae'r cwrs yn dechrau yn yr hydref 2009

Sioe deithiol Pact

Mae Pact yn gwybod ei bod hi'n fain ar gynhyrchwyr, ac mae'n gweithio'n galetach nag erioed i'ch helpu trwy'r cyfnod heriol hwn. Bydd Pact yn teithio o gwmpas y DU dros yr ychydig fisoedd nesaf i ddod â chymorth a chyngor i fusnesau ac unigolion yn y diwydiant creadigol.

Cewch glywed oddi wrth y Prif Weithredwr, John McVay, Cyfarwyddwr Materion Busnes, Andrew Chowns ac arbenigwyr eraill yn nhîm Pact am fentrau lobïo allweddol Pact i greu cyfleoedd newydd i chi. Bydd sioe deithiol flynyddol Pact yn rhoi i chi wybodaeth fewnol ynglŷn â ble mae'r diwydiant yn mynd a sut yr ydym ni'n ymdrin â chysylltiadau diwydiannol a materion cherddoriaeth yr hoffech siarad â ni amdanynt, gallwch gadw lle ar: hello@welshmusicfoundation.com

CYLLID A CHYMORTH

Cronfa Eiddo Deallusol Creadigol Cymru:

Mae Cronfa Eiddo Deallusol Creadigol Cymru'n darparu buddsoddiad ecwiti ar gyfer ffilmiau hir, cynyrchiadau teledu, a phrosiectau cyfryngau newydd a cherddoriaeth. Un o amodau buddsoddi gan y gronfa yw bod cyfran o holl gyllideb y cynhyrchiad yn cael ei gwario'n uniongyrchol yng Nghymru. Mae'r buddsoddiad hefyd yn sicrhau bod y gronfa'n cael budd o unrhyw adenillion sy'n cael eu hailfuddsoddi mewn prosiectau creadigol yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r gronfa wedi buddsoddi mwy nag £8 miliwn mewn 13 ffilm, chwe chynhyrchiad teledu, dau brosiect cyfryngau newydd a dwy raglen ddogfen ffeithiol ers ei chreu ym mis Mai 2005.

I gael mwy o wybodaeth am y Gronfa, cysylltwch â **Bethan Bannister,** Gweithredwr Buddsoddi, Cronfa Eiddo Deallusol Creadigol Cymru, Cyllid Cymru.
Ffôn: 029 20 338146
E-bost: Bethan.bannister@financewales.co.uk
Gwe: www.financewales.co.uk

Pact

Mae Pact yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau busnes i'w aelodau; yn mynd ati i lobïo sefydliadau llywodraethol ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol ac Ewropeaidd; ac yn trafod telerau masnachu sylfaenol gyda darlledwyr mawr yn y DU. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymaelodi â PACT, anfonwch neges e-bost at Anish Khanderia ar anish@pact.co.uk neu ffoniwch 0207 380 8230.
I gael **cylchlythyr misol Pact am ddim,** ac ynddo newyddion a barn y

cyfreithiol er eich lles chi.

Dilynwch y ddolen hon i gofrestru ar gyfer dyddiad a lleoliad sy'n addas i chi: http://pactroadshow09.eventbrite.com/

Cymru yn CANNES 2009.

Uchafbwynt y flwyddyn yw hi i'r diwydiant ffilmiau rhyngwladol ond beth yn union mae Cannes yn ei olygu i wneuthurwyr ffilimiau o Gymru?

Mae Pauline Burt, Prif Weithredwr Asiantaeth Ffilm Cymru, yn esbonio pam mai Cannes yw Y LLE i fod…"*Ein rôl ni yng Ngŵyl Ffilm Cannes eleni oedd creu proffil o brosiectau ffilm o Gymru, hwyluso sgyrsiau ac ennyn diddordeb ymhlith asiantau gwerthu, dosbarthwyr, cyllidwyr a chynhyrchwyr rhyngwladol yn y doreth o dalent o Gymru sy'n chwilio am gymorth ym maes gwneud ffilmiau. Ein busnes ni yw gwneud i ffilmiau ddigwydd – ac felly Cannes yw'r lle i fod".*

Mae'n gyfle gwych i wneuthurwyr ffilmiau werthu ffilmiau ar sail eu hansawdd artistig ac mae Cannes fellly'n lle poblogaidd i gynhyrchwyr ffilmiau lansio'u ffilmiau newydd a cheisio gwerthu eu gwaith i'r dosbarthwyr sy'n dod o bedwar ban byd. Ychwanegodd Pauline "*Yn wir, gan weithio gyda'n cydweithwyr yng Nghomisiwn Sgrîn Cymru a Chronfa Eiddo Deallusol Creadigol Cymru, roeddem yn falch o greu proffil o rai o dalentau gorau Cymru yn yr ŵyl eleni. Roedd ein harlwy sylweddol yn cynnwys 'A Boy Called Dad' gan y cynhyrchydd o Gaerdydd, Mark John, 'Patagonia' gan Rebekah Gilberton gyda Matthew Rhys yn un o'r prif rannau, a 'Skellig' gan y cynhyrchydd Nick Hirschkorn a ddangoswyd am y tro cyntaf ar Sky1 ym mis Ebrill ac sydd wedi'i hariannu gan Gronfa Eiddo Deallusol Creadigol Cymru".*

BAFTA CYMRU 2009

PLANT YSGOL O GYMRU AR Y CARPED COCH

Plant o ysgol y Porth oedd sêr gwobrau BAFTA Cymru a gynhaliwyd ar 17 Mai wrth iddynt gynnal cyfweliad â'r seren ffilmiau Michael Sheen.

Michael Sheen ar y carped coch yn noson gwobrau BAFTA Cymru

Yna ymunodd Michael, a anwyd yng Nghasnewydd, â'r cyw-wneuthurwyr ffilmiau o Ysgol Gymunedol Sir Y Porth yn y dosbarth i ddysgu mwy am yr hyn maen nhw'n ei wneud gyda Chlwb Ffilm Cymru; menter ledled y DU sydd â'r nod o ddatblygu llythrennedd ffilm a phrofiad ymarferol o wneud ffilmiau.

diwydiant, yn syth i'ch blwch derbyn, ewch i www.pact.co.uk.

Cymru yn Cannes 2009

A Boy Called Dad

Mae bachgen 14 oed yn dod yn dad ac yn bwriadu bod yn well dad o lawer na'i 'hen ddyn'. Mae gan y fam syniadau eraill a rhaid iddo frwydro i gael bod yn dad.

CWMNI CYNHYRCHU: Made Up North
CYNHYRCHYDD: Mike Knowles
CYD-GYNHYRCHYDD: Mark John
CYFARWYDDWR: Brian Percival
CAST: Ian Hart
GWERTHU: The Works
DOSBARTHU YN Y DU: Metrodome

Abraham's Point

Mae dyn sy'n methu cysgu'n dwyn her gloc yn y gobaith y gall wneud iawn ar bechod o'i blentyndod i'w dad, sy'n wael ei iechyd. Ond mae twyllwr, amryw o bobl ryfedd a'n harwr ei hun yn peryglu ei daith.

CWMNI CYNHYRCHU: Spinning Head Films
CYNHYRCHWYR: Tony Purves, Gaynor Price
AWDUR/CYFARWYDDWR: Wyndham Price
CYNHYRCHYDD GWEITHREDOL: Ju Baines
CAST: Mackenzie Crook
GWERTHU: Moviehouse

Flick

Sombi Tedi Boi yn dychwelyd o'r bedd i ddial ar y bwlïaid a ddaeth rhyngddo ef a merch ei freuddwydion. A fydd e'n cael cusanu'r ferch o'r diwedd, neu a fydd y gyfraith yn rhwystro'i gais?

CWMNI CYNHYRCHU: Monster Films
CYNHYRCHYDD: Rik Hall
CYNHYRCHYDD GWEITHREDOL:

Gan weithio gydag Asiantaeth Ffilm Cymru, Academi Sgrîn Skillset Cymru a'r elusen genedlaethol ContinYou Cymru, mae disgyblion o 17 o ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws saith awdurdod addysg lleol yng Nghymru wedi uno i greu 17 o glybiau ffilm yng Nghymru fel rhan o gynllun peilot dwyieithog a fydd yn para am flwyddyn.

Mae Clwb Ffilm Cymru'n cael ei gynnal y tu allan i oriau ysgol gan staff addysgu ac mae'n rhoi cyfle i ddisgyblion ystyried ac adolygu ffilmiau sy'n cael eu dangos gan eu Clwb Ffilm. Diolch i gymorth gan LOVEFiLM, mae'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn gallu cael mwy na 62,000 o ffilmiau trwy wefan bwrpasol, www.filmclub.org. (Mae aelodaeth yn rhad ac am ddim gyda hyd at £1250.00 ar gael i bob Clwb Ffilm oddi wrth Asiantaeth Ffilm Cymru ac Academi Sgrîn Cymru Skillset.)

Benthyciadau wedi'u gwarantu gan y Llywodraeth

Mae'r llywodraeth wedi lansio pecyn o fesurau ariannol a fydd yn helpu i alluogi banciau i barhau neu ailddechrau benthyca i fusnesau hyfyw sy'n cael anawsterau dros dro gyda llif arian.

Byddwch yn barod i ymchwilio i'r holl ddewisiadau posibl, ac i drafod gyda'r benthyciwr, er mwyn cael y fargen orau i'ch busnes chi. Gan mai cynhyrchion masnachol yw'r rhain, y benthycwyr sy'n cymryd rhan fydd yn penderfynu ynglŷn â chymhwysedd busnesau unigol i gael benthyciad.

Mae benthyciadau wedi'u gwarantu gan y Llywodraeth trwy'r Gwarant Cyllid Menter newydd yn agored i fusnesau â throsiant blynyddol o hyd at £25 miliwn nad ydynt yn gallu cael y cyllid y mae arnynt ei angen yn hawdd ar hyn o bryd. Bydd hyn yn galluogi busnesau i sicrhau benthyciadau gwerth rhwng £1,000 ac £1 miliwn. Noder: bydd pob penderfyniad ynglŷn â benthyca arian ar ddisgresiwn y banc sy'n rhoi'r benthyciad.

Cliciwch yma i Gael mwy o wybodaeth am y Gwarant Cyllid Menter newydd.

Arolwg Cyflogaeth 2009 o'r Diwydiannau Cyfryngau Creadigol

Anogir pob cwmni Cyfryngau Creadigol yn y DU i fanteisio ar y cyfle hwn, a chymryd rhan yn seithfed Arolwg Skillset o'r Diwydiannau Cyfryngau Creadigol trwy lenwi ffurflen yr Arolwg sydd ar gael ar: www.skillset.org/census.
Dylid anfon y ffurflenni erbyn **Dydd Gwener 31st Gorffennaf 2009** fan hwyraf.

Os ydych eisoes wedi cael ffurflen bapur, gallwch ddewis lenwi'r ffurflen ar-lein neu'r ffurflen bapur. Fodd bynnag, sicrhewch eich bod yn llenwi un ffurflen yn unig ar gyfer pob rhanbarth y mae'ch sefydliad yn gweithio

Pippa Cross
AWDUR/CYFARWYDDWR: David Howard
CAST: Faye Dunaway, Hugh O'Connor
GWERTHU: AV Pictures

I Know You Know

Mae bachgen ifanc o'r enw Charlie yn addoli ei dad ac wedi'i hudo'n llwyr gan ei waith ysbïo... hynny yw nes iddo ddechrau deall yn raddol bod ei dad yn byw mewn realiti cwbl wahanol.

CWMNI CYNHYRCHU: Parallax East
CYNHYRCHYDD: Sally Hibbin
AWDUR/CYFARWYDDWR: Justin Kerrigan
CAST: Robert Carlyle, Aaron Fuller, David Bradley
GWERTHU: The Little Film Company

Mugabe and the White African

Ffilm hir ddogfennol. Mae ffermwr gwyn o Simbabwe, gŵr penderfynol sy'n rhoi ysbrydoliaeth, yn mynd â Robert Mugabe i'r llys hawliau dynol i herio'r rhaglen cipio tir.

CWMNI CYNHYRCHU: Arturi Films
CYNHYRCHWYR: Elizabeth Morgan Hemlock a David Pearson

ynddo.

Yr Arolwg yw'r mesur annibynnol sefydledig o siâp a maint y diwydiant fesul sector. Mae'r wybodaeth a gesglir, ochr yn ochr â gwaith ymchwil arall gan Skillset, yn caniatáu i'r diwydiant nodi newidiadau yn y gweithlu, siartio meysydd sy'n tyfu a sy'n gwanhau a thargedu buddsoddi ym maes datblygu sgiliau er mwyn sicrhau y diwellir anghenion y diwydiant.
Bydd canlyniadau'r Arolwg ar gael i'r cyhoedd erbyn diwedd 2009 ac chaiff adroddiad ei anfon at bawb a gymerodd ran. Gallwch fod yn sicr y bydd yr holl wybodaeth a roddir yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol a'i defnyddio dim ond at ddibenion casglu ystadegau cyfun ar y diwydiant cyfan. I gael mwy o wybodaeth cliciwch ar y ddolen Wales screen commission news. Os oes gennych unrhyw bryderon neu ymholiadau am yr Arolwg cysylltwch â Juno Kurian Thomas yn Skillset naill ai ar: junok@skillset.org neu ar: 020 7713 9886.

Gweithdai cynnig Sheffield Documentary Festival– Noddwyd gan MEDIA ANTENNA CYMRU

Cyrhaeddodd yr ychydig ddyddiau dwys yng Nghaerdydd benllanw gyda'r rhai oedd yn cymryd rhan yn rhoi cynigion ger bron y comisiynwyr oedd yno, sef Jo Lapping o Storyville (BBC) ac Aysha Rafaele o Channel Four. Roedd yr adborth gan y comisynwyr yn ddadlennol iawn a dywedsant fod ganddynt ddiddordeb mewn dilyn i fyny nifer o'r cynigion.

Cynadleddwyr yng ngweithdy ffilmiau dogfen Sheffield

Dywedodd y gwneuthurwyr ffilmiau a gymerodd ran ei fod yn *"gofyn llawer iawn mewn ffordd dda……. "Roedd cynnig yn hunllef ond dwi'n falch i mi ei wneud, mae'n rhoi mwy o hyder i rywun"……. "Roedd yn wirioneddol ysbrydoledig i fod yng nghwmni gwneuthurwyr ffilmiau dogfen ymroddedig. Roedd gwerthusiadau'r golygyddion comisiynu yn rhoi darlun amhrisiadwy"*

Gellir cyflwyno prosiectau dogfen sydd ar waith ac sy'n rhyngwladol eu hapêl i'r Sheffield Doc/Fest MeetMarket yn awr (hyd at ddydd Gwener Medi 4ydd 2009). Nid oes angen i brosiectau fod ag unrhyw gyllid wedi'i sicrhau eisoes a gallant fod ar unrhyw gam, o ddatblygu cynnar i fersiwn wedi'i golygu'n fras. I gael mwy o wybodaeth ewch i: http://www.sheffdocfest.com/meetmarket

Dyddiadau cau MEDIA

Cyllido

Offer clyweledol i2i:	7 Gorffennaf
VOD/DCD:	15 Gorffennaf
Prosiectau Peilot:	15 Gorffennaf
Mynediad i Farchnadoedd:	7 Awst
Hyfforddiant Parhaus:	7 Awst

Hyfforddiant

Dyddiad	Digwyddiad	Terfyn amser
14 Hydref	Ffynonellau: Prosiectau a Phroses	1 Awst
7 Medi	Y Gweithdy Animeiddio	10 Awst
Hydref 2009	La Femis: Archidoc	1 Medi
5 Hydref	Fabulafilm: Gweithdai MAIA	25 Medi
Amrywiol	Ysgol Feistr Documentary Campus	30 Medi

Rhwydweithio

Dyddiad	Digwyddiad
9 Gorffennaf	Gŵyl Ffilm Galway
23 Gorff.	Gŵyl Ffilm ERA New Horizons
16 Awst	Gŵyl Ffilm Lussas Doc
17 Awst	Gŵyl Ffilm Ryngwladol Odensee
21 Awst	Gŵyl Ffilm Ryngwladol Espo Cine

MEDIA Antenna Cymru yng Ngŵyl Ffilm Caeredin

Ymunodd MEDIA Antenna Cymru â chydweithwyr o MEDIA Antenna yr Alban a'r UK MEDIA Desk yn Llundain i gyflwyno ***MEDIA Going Global*** yng Ngŵyl Ffilm Caeredin.

Mae gan raglen MEDIA fenter newydd arloesol, MEDIA International. Ei diben yw hybu cysylltiadau agosach rhwng diwydiannau ffilm Ewrop a diwydiannau ffilm y tu allan i Ewrop, er budd i bawb.

Cafodd ystod eang o weithgareddau gyllid yn 2008. Daeth tîm UK MEDIA â siaradwyr o bedair menter ynghyd, sef Stefan Kitanov o Sofia Cinelinks, Nadja Radojevic o Sefydliad Erich Pommer, Tina Trapp o EAVE a Pierre Alexandre Labelle o European Producer Club, i roi newyddion i gynulleidfa yn yr Ŵyl am eu cynlluniau sy'n cael cymorth gan MEDIA International.

I gael mwy o fanylion am MEDIA International, cynlluniau cyllido MEDIA 2007 a digwyddiadau hyfforddi a rhwydweithio sy'n cael cymorth gan MEDIA cysylltwch â Judy Wasdell ar wales@mediadeskuk.eu neu edrychwch ar ein gwefan. www.mediadeskuk.eu

WAG is urging businesses across the country to take advantage of the opportunities offered by the London 2012 Olympic Games, for further information:

http://www.business-support-wales.gov.uk/tender_wales/london_2012.aspx

CBW

Cysylltwch â:
Busnes Creadigol Cymru, 33-35 West Bute Street, Bae Caerdydd, CF10 5LH
Ffôn: 02920 43 6110
Ffacs: 02920 49 5598
E-bost: cbw@wales-uk.com

Websites:
www.ibwales.com
www.business-support-wales.gov.uk

© Busnes Creadigol Cymru 2009